Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir

# Seneddwragedd y Gymanwlad

CWP
COMMONWEALTH WOMEN PARLIAMENTARIANS

CPA
COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
BRITISH ISLANDS & MEDITERRANEAN REGION

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**


**CYSYLLTWCH Â NI**

0300 200 6565

Cysylltu@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

@CynulliadCymru



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
**Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.**

# Cynnwys


Rhagair .......... 5

Rhaglen .......... 9

Bywgraffiadau .......... 19

Siaradwyr .......... 59

Perfformwyr .......... 73

Rheoli Cynhadledd .......... 77





# Rhagair

# Rhagair



Joyce Watson AM
BIMR CWP Cadeirydd

Croeso i Gymru – Welcome to Wales! Erbyn hyn, mae'n anodd osgoi'r gair hwnnw sy'n dechrau gyda 'B'. Digon yw dweud bod digwyddiadau cyfredol wedi rhoi sbardun newydd i Lywodraethau ym mhob man ddiweddaru eu cynlluniau economaidd. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Llundain y mis diwethaf, dyna'r union beth a wnaeth Gweinidogion masnach y Gymanwlad, gan gytuno i gryfhau cysylltiadau economaidd ein teulu o genhedloedd.

Roedd y gynhadledd hon, felly, yn gyfle amserol i drafod sut y gall menywod chwarae rhan lawn a chyfartal yn economïau unigol eu cenhedloedd ac yn yr economi ar y cyd, yn awr ac yn y dyfodol, a sut y gall llunwyr polisi gefnogi menywod i gyrraedd eu potensial ac i ffynnu.

Ledled rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, rydym yn gwneud cynnydd – ond mae cydraddoldeb yn parhau i fod yn anghyson. Mae menywod yn fwy tebygol o weithio mewn rolau rhan amser ar gyflog isel ac maent yn nodedig yn absennol o sectorau penodol fel peirianneg a gweithgynhyrchu, a swyddi arweinyddiaeth yn gyffredinol ar draws y farchnad lafur. Ar yr un pryd, mae rolau sy'n cael eu pennu yn ôl canfyddiadau traddodiadol o rywedd – menywod yn 'brif ofalwyr' ac ati – yn parhau i gael dylanwad ac i amharu ar benderfyniadau proffesiynol, cyfleoedd a chynnydd menywod.

# Rhagair

Mae cost ariannol y dangynrychiolaeth hon yn enfawr (canfu adroddiad diweddar y gallai cau'r bwlch rhwng dynion a menywod ychwanegu £150 biliwn at economi'r DU erbyn 2025), ac mae'n cael effaith gysylltiedig ar gymdeithas.

Felly, wrth i ni ddod at ein gilydd yng Nghaerdydd, y nod yw cydweithio, herio ac ysbrydoli newid – i nodi'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag cyrraedd eu potensial, nodi bylchau posibl mewn polisi a strategaeth a rhannu arfer gorau.

Drwy agenda gyffrous a rhyngweithiol, rydym yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o sectorau pwysig, busnes rhyngwladol, busnesau newydd arloesol, y Llywodraeth, y trydydd sector a'r byd addysg. Byddwn yn clywed gan y goreuon, gan flasu llwyddiant melys, adeiladu pontydd a cheisio croesi'r bwlch rhwng y cenedlaethau. Byddwn yn dysgu sut y gall busnesau, llunwyr polisi a rhanddeiliaid ddod at ei gilydd i gymryd camau tuag at gynyddu cydraddoldeb rhwng dynion a menywod er mwyn creu cymdeithasau mwy llewyrchus a sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn sy'n gweithio i fenywod.





# Rhaglen

| | | |
|---|---|---|
| | 09.00 – 14.00 | **Trwy'r dydd Cynadleddwyr yn cyrraedd**<br>Cofrestru yng ngwesty St David's |
| **Ymweliad allgymorth**<br><br>Lleoliad:<br>**Nantgarw, Caerfilli** | 14.15 – 16.15 | **Ymweliad allgymorth G.E**<br><br>Gwahoddir y cynadleddwyr i ymuno â'r ymweliad hwn â safle GE Aviation yn Nantgarw yng Nghaerffili, de-ddwyrain Cymru.<br><br>Mae'r safle wedi tyfu'n gyflym dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf, ac erbyn hyn caiff ei gydnabod yn arweinydd byd-eang yn y sector awyrennau ac yn un o brif gyflogwyr Cymru. Mae'r cyfleuster yn cynnwys dros 1.2 miliwn metr sgwâr o weithdai, a chyflogir gweithlu medrus iawn o dros 1,200 o bobl yno.<br><br>Yn ogystal â thaith o amgylch y cyfleuster (sylwer na chaniateir tynnu lluniau), ceir anerchiad am yr hyn y mae GE yn ei wneud i bontio'r bwlch rhwng y rhywiau yn y pynciau |

| | | |
|---|---|---|
| **Croeso**<br>Lleoliad:<br>**Pierhead - Oriel y Dyfodol** | 18.30 – 19.15 | **Derbyniad croeso**<br><br>Cynhelir gan y Llywydd ac aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad |
| **Croeso**<br>Lleoliad:<br>**Pier 64, Marina Penarth** | 19.45 – 20.00 | **Diodydd cyn cinio** |
| | 20.00 – 22.15 | **Cinio**<br><br>Cynhelir gan Is-lywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Ann Jones AC |

## Yr Ail Ddiwrnod: Dydd Gwener 7 Ebrill

| | | |
|---|---|---|
| **Brecwast**<br>Lleoliad:<br>**Ystafell Penarth, Gwesty St David's** | 07.30 – 08.30 | **Cyfarfod brecwast ar gyfer y Pwyllgor Llywio**<br><br>Cadeirydd: **Joyce Watson AC** |
| | 08.45 | **Gadael Gwesty St David's** |
| **Dechrau'r gynhadledd**<br>Lleoliad:<br>**Siambr Hywel** | 09.10 – 09.15 | **Anerchiad agoriadol a chrynodeb o'r rhaglen**<br><br>**Joyce Watson AC** (Cymru) |
| **Sesiwn 1 y Cyfarfod Llawn**<br>Lleoliad:<br>**Siambr Hywel**<br>Cadeirydd:<br>**Joyce Watson AC**<br>Ysgrifennydd:<br>**Anna Burt** | 09.15 – 09.45 | **Y cyd-destun: Menywod yn Economi Cymru**<br>Golwg gyffredinol ar sefyllfa menywod yn economi Cymru, yr hyn sy'n rhwystro menywod rhag cyrraedd eu llawn botensial, a'r atebion a all sicrhau bod menywod yng Nghymru yn cyflawni ac yn ffynnu<br><br>Dan arweiniad Chwarae Teg.<br>Cyflwynwyr:<br>**Cerys Furlong**, **Natasha Davies** |
| | 09.45 – 10.10 | **Addysg a hyfforddiant: Datblygu Menywod i fod yn Arweinwyr Entrepreneuraidd y Dyfodol**<br><br>Cyflwynydd:<br>**Christine Atkinson**,<br>Pennaeth Canolfan Entrepreneuriaeth Menywod, Prifysgol De Cymru<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddilyn |

10.10 – 10.25 **Egwyl fer**
lluniaeth ar gael

**Sesiwn 2 y Cyfarfod Llawn**

Lleoliad:
**Siambr Hywel**

Cadeirydd:
**Ann Jones AC**

Ysgrifennydd:
**Helen Haywood**

10.30 – 10.50 **Rôl y Llywodraeth o ran hyrwyddo menywod yn yr economi**

Cyflwynydd:
**Jane Hutt AC**
Arweinydd y Tŷ, Llywodraeth Cymru

10.50 – 11.20 **Rhan 2: Menywod busnes lleol sy'n ysbrydoli**

Cyflwynwyr
**Sophie and Hannah Pycroft**
Spectrum Collections

**Jo Roberts**
Fabulous Welshcakes

Sesiwn holi ac ateb i ddilyn

11.20 – 11.30 **Egwyl fer**
lluniaeth ar gael

| | | |
|---|---|---|
| **Sesiwn 3 y Cyfarfod Llawn**<br>Lleoliad:<br>**Siambr Hywel**<br>Cadeirydd:<br>**Rhianon Passmore AC**<br>Ysgrifennydd:<br>**Lisa Hart** | 11.30 – 12.15 | **Amrywiaeth menywod yn yr economi**<br><br>Cyflwynwyr<br>**Helen Walbey**<br>Diversity Cadeirydd of FSB UK<br><br>**Maxine Barrett**<br>Operations Director at HOS Hire Ltd<br><br>**Laura Toscano**<br>GE UK HR Leader<br><br>Sesiwn holi ac ateb i ddilyn |
| | 12.15 | **Cynadleddwyr yn mynd i'r gweithdai a ddyrannwyd iddynt** |

**Gweithdy A:**

Lleoliad:
**Siambr Hywel Ddosbarth A**

Rapporteur:
**Samantha Sacramento**

Ysgrifennydd:
**Anna Burt**

12.15 – 13.00

**Cefnogi busnesau i helpu menywod i gyflawni a ffynnu**

Yn ystod y sesiwn ryngweithiol hon, bydd y cynadleddwyr yn clywed am waith rhaglen Cenedl Hyblyg 2 gan Chwarae Teg i gefnogi busnesau ledled Cymru i recriwtio, cadw a datblygu menywod ac archwilio'r camau ymarferol y gall busnesau eu cymryd i recriwtio gweithlu amrywiol.

Wedi'i hwyluso gan:
**Gemma Littlejohns**

---

**Gweithdy B:**

Lleoliad:
**Siambr Hywel Ddosbarth B**

Rapporteur:
**Deputy Susie Pinel**

Ysgrifennydd:
**Nicola Crawford**

12.15 – 13.00

**Gwylio'r bwlch: menywod ym maes adeiladu**

Dan arweiniad Donna Griffiths, Rheolwr Partneriaeth ar gyfer Cymru, CITB, a phrentisiaid a menywod eraill sy'n gweithio yn y sector.

Bydd y gweithdy hwn yn dangos rhai o'r datblygiadau arloesol sy'n chwarae rhan gynyddol bwysig ym myd adeiladu a pheirianneg sifil – gan herio'r rhagdybiaethau a fydd gan lawer o fenywod am y diwydiannau hyn – fel Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM), realiti estynedig a realiti rhithwir.

Wedi'i hwyluso gan:
**Suzy Davies AM**, with CITB/ICE

**Cinio**

Lleoliad:
**Ystafell Giniawa'r Aelodau, Tŷ Hywel**

13.00 – 14.00 **Cinio bwffe ar gyfer rhwydweithio**

14.10 – 14.20 **Llun swyddogol**

**Gweithdy rhyngweithiol i bawb: Adeiladu Pontydd**

Lleoliad:
**Senedd Cwrt**

14.30 – 16.00 **"Adeiladu Pontydd"**

Wedi'i hwyluso gan CITB ac ICE. Her y bont gan yr ICE, sef sesiwn ryngweithiol sy'n rhoi cyfle i adeiladu fersiwn fach o ail bont afon Hafren.

Bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth rhwng CITB Cymru ac ICE Cymru gan ddefnyddio menywod sydd wedi'u hyfforddi i fod yn Genhadon Adeiladu.

16.00 – 16.20 **Egwyl fer**
lluniaeth ar gael

16.20 – 16.50 **Adrodd yn ôl o'r gweithdai**

16.50 – 17.00 **Sylwadau i gloi'r gynhadledd**

Cadeirydd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, **Joyce Watson AC**

**Cinio**

Lleoliad:
**Gwesty St David's**

| | | |
|---|---|---|
| 19.15 – 19.45 | **Derbyniad diodydd**<br><br>Ystafell Penarth, Gwesty St David's |
| 19.45 – 22.30 | **Cinio swyddogol**<br><br>Ystafell Roald, Gwesty St David's<br><br>Cadeirydd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, **Joyce Watson AC** |





# Bywgraffiadau

# Bywgraffiadau



## Elin Jones AC
## Y Llywydd

Mae Elin Jones wedi bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ers ei greu ym 1999 a chafodd ei hethol yn Llywydd ym mis Mai 2016. Yn y rôl hon, hi sy'n cadeirio'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Cynulliad, yn ogystal â chadw trefn yn y Cyfarfod Llawn.

Cafodd Elin ei geni a'i magu yn Llanbedr Pont Steffan yng Ngheredigion, yr etholaeth y mae'n ei chynrychioli. Graddiodd o Brifysgol Caerdydd gyda BSc mewn Economeg ac astudiodd ar gyfer MSc ôl-radd mewn Economeg Amaethyddol ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth, cyn gweithio fel swyddog Datblygu Economaidd i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig.

Cyn ei hethol i'r Cynulliad, bu Elin yn gwasanaethu fel cynghorydd tref Aberystwyth a bu'n Faer ieuengaf erioed y dref ym 1997-98.

Yn ystod ei hamser yn y Cynulliad, mae Elin wedi bod yn Weinidog yr Wrthblaid dros Ddatblygu Economaidd y Cynulliad, yn Weinidog yr Wrthblaid dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac yn Weinidog yr Wrthblaid dros Iechyd. Hi oedd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Faterion Gwledig rhwng 2007 a 2011. Bu'n Gadeirydd Plaid Cymru rhwng 2000 a 2002.

Yn rhyngwladol, mae Elin yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfodydd Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE) ac mae'n Llywydd Cangen y Cynulliad o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA).

Y tu allan i'r Cynulliad, mae Elin yn mwynhau cerddoriaeth, ffilmiau, darllen a phêl-droed – mae'n gefnogwr selog o Glwb Pêl-droed Tref Aberystwyth.



## Ann Jones AC
## Y Dirprwy Llywydd

Mae Ann Jones wedi bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ers ei greu ym 1999, a phenodwyd hi'n Ddirprwy Lywydd ym mis Mai 2016.

Cafodd Ann ei geni a'i magu yn y Rhyl ar arfordir gogledd Cymru, ac yno y mae hi wedi byw gydol ei hoes. Bu'n gweithio am dros 30 mlynedd yn y ganolfan ymdrin â galwadau brys y Gwasanaeth Tân, ac roedd yn swyddog cenedlaethol gydag Undeb y Frigâd Dân.

Cyn cael ei hethol i'r Cynulliad, gwasanaethodd Ann fel Cynghorydd Tref yn y Rhyl, a hi oedd Maer y dref ym 1996/7. Roedd hefyd yn Gynghorydd Sir yn Sir Ddinbych.

Yn ystod ei hamser yn y Cynulliad, mae Ann wedi cadeirio'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac wedi bod yn gadeirydd y Grŵp Llafur ddwywaith. Hi yw Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar hyn o bryd, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion. Mae hi hefyd yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar.

Yn 2007, cyflwynodd Ann y Cynnig Deddfwriaethol mainc gefn cyntaf, a oedd yn ei galluogi hi i fynd ar drywydd y gyfraith diogelwch tân yn y cartref a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob tŷnewydd a adeiladir fod â system chwistrellu wedi'i gosod ynddo. Cafodd y gyfraith ei phasio yn 2011.

Y tu allan i'r Cynulliad, mae Ann yn mwynhau teithio, darllen a phêl-droed - mae hi'n gefnogwr brwd o Glwb Pêl-droed Tref y Rhyl. Mae hi'n briod gyda dau o blant a thri o wyrion.

# Bywgraffiadau



Joyce Watson AC
BIMR CWP Cadeirydd

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Comisiynydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cadeirydd CWP BIMR

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2007

**Crynodeb o yrfa:**

Cyn cael ei hethol, roedd yn rhedeg busnesau bach, yn rheoli Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru ac yn arweinydd yr wrthblaid yng Nghyngor Sir Penfro. Roedd yn llefarydd Llafur ar faterion gwledig yn 2007-2011; awdur adroddiad Knowing No Boundaries ar fasnachu mewn pobl yng Nghymru (2009); arwain ymgyrch Not in my Name ar drais yn erbyn menywod gyda Sefydliad y Merched.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Cynadleddau CWP BIMR

- 2017 – Gweithgor CWP (Wilton Park) y DU
- 2016 – Guernsey
- 2015 – Gibraltar

- 2014 – yr Alban

Cynadleddau BIMR

- 2016 – Jersey
- 2015 – Ynys Cyprus
- 2014 – Cymru
- 2013 – Ynysoedd y Falkland
- 2002- Yr Alban

Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad

- 2016/2011 – Llundain, y DU
- 2013 - Johannesburg, De Affrica

**Diddordebau:**

Mae diddordebau gwleidyddol yn cynnwys hyrwyddo adnewyddu'r economi wledig drwy weithio i godi sgiliau'r gweithlu, lleihau diweithdra ymysg pobl ifanc a buddsoddi mewn busnesau gwledig.

Yn mwynhau tynnu lluniau o fywyd gwyllt a cherddwr brwd.



## Rhun ap Iorwerth AC
Cadeirydd Cangen Cymru CPA

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Ysgrifennydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Wrthblaid
- Cadeirydd Cangen Cymru CPA
- Cadeirydd, Grŵp Trawsbleidiol: Cymru Ryngwladol

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2013

**Amlinelliad Gyrfa:**

Newyddiadurwr a Darlledwr. Newyddiadurwr gyda'r BBC


**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Seminar Canada CPA, Ottawa, 2014

**Diddordebau:**

Datganoli, cyfansoddiad, iechyd, datblygu economaidd, iaith





## Mr Andrew Tuggey

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd, CPA UK
- Ysgrifenyddiaeth BIMR

**Crynodeb o yrfa:**

Andrew Tuggey yw Prif Weithredwr CPA yn y Senedd yn San Steffan (CPA UK). Ef yw ysgrifennydd y gangen honno a CPA Ynysoedd Prydain a Rhanbarth Môr y Canoldir (BIMR).

Yn gyn-swyddog yn y Fyddin ac yn gyn-ddiplomydd amddiffyn yn Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, mae Andrew yn hynod brofiadol a medrus ym meysydd allgymorth rhyngwladol, diplomyddiaeth seneddol, cryfhau seneddol a meithrin capasiti: mae gan raglenni CPA UK enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth. Andrew yw Dirprwy Arglwydd Raglaw Gwent ac fe'i hanrhydeddwyd yn Rhestr Pen-blwydd y Frenhines yn 2016 am ei waith gyda'r CPA a chyda chymunedau yn ne-ddwyrain Cymru.

# Bywgraffiadau



## Miss Helen Haywood

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

– Dirprwy Brif Weithredwr, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y DU

– Ysgrifenyddiaeth Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir

**Crynodeb o yrfa:**

Mae Helen wedi gweithio i Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad y DU ers 1995 mewn amrywiaeth o swyddi ac ar bob math o weithgareddau dwyochrog ac amlochrog yn San Steffan a Thramor.

Fel Dirprwy Brif Weithredwr mae Helen yn rheoli cynllunio busnes a gwasanaethau corfforaethol ac yn arwain ar Gynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

– Cynadleddau Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad Caeredin 2014, Gibraltar 2015 a Guernsey 2016

– Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad y DU 2000 a 2011, Arusha, Tanzania 2009.

**Diddordebau:**

– Cydraddoldeb rhwng y rhywiau, grymuso menywod a chyfranogiad menywod wrth wneud penderfyniadau.

– Monitro a Gwerthuso ymgysylltu rhyng-seneddol



## Mrs Norma Paris SM (Aelod Gwladwriaethol)
Alderney

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Cadeirydd, y Pwyllgor Gwasanaethau Cyffredinol

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2014

**Crynodeb o yrfa:**

Cadeirydd, y Pwyllgor Datblygu Busnes, Twristiaeth a Marchnata 2015. Yn flaenorol yn gyfarwyddwr a chyfranddaliwr mewn cwmnïau preifat. Yn gyntaf, ym maes cylchgronau cylchrediad rheoledig a chylchgronau defnyddwyr, ac yn fwy diweddar ym maes hedfan, gan ddarparu gwasanaeth gwagio meddygol, tacsi awyr a gwasanaethau cargo ledled Ewrop a Gogledd Affrica.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR, Guernsey 2016

**Diddordebau:**

Cerdded pellter hir, yn y DU ac Ewrop yn bennaf. Garddio a llenyddiaeth.



## Ms Eleni Mavrou AS
Ynys Cyprus

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog y Tŷ ar Faterion Mewnol.

Aelod o Bwyllgor Sefydlog y Tŷ ar Faterion Amddiffyn ac o Bwyllgor Sefydlog Tŷ ar Lafur, Llesiant ac Yswiriant Cymdeithasol.

Pennaeth dirprwyaeth y Tŷi Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA).

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2001

**Crynodeb o yrfa:**

Cymhwyster Peirianneg Sifil [Athrofa Technolegol Uwch (ATI), Nicosia] a BSc mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol (Prifysgol Llundain).

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

62ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (CPC), Llundain, Rhagfyr 2016

**Diddordebau:**

- Materion Ieuenctid a rhywedd
- Senedd Ewrop
- Cynllunio tref a materion dinesig.



## Yr Anrhydeddus Samantha Jane Sacramento AS
Gibraltar

**Crynodeb o yrfa:**

- Hydref 2001 - Rhagfyr 2003: Swyddog Materion Cyfreithiol, Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Caerdydd
- Mai 2004 - Rhagfyr 2011 Bargyfreithiwr; Gibraltar
- Rhagfyr 2011 hyd heddiw: Gweinidog dros Dai a Chydraddoldeb, Llywodraeth Ei Mawrhydi Gibraltar
- Aelod o bwyllgor llywio Seneddwragedd y Gymanwlad

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

- Cynhadledd Ranbarthol CPA (BIMR) Ynysoedd y Falkland, 2012
- CPC Johannesburg, 2013
- Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad, Caeredin, 2014
- Cynhadledd Ranbarthol CPA (BIMR) Caerdydd, 2014
- CPC Camerŵn, 2014.
- Cynhadledd Pwyllgor Seneddwragedd y Gymanwlad, Gibraltar 2015
- Cynhadledd Ranbarthol CPA (BIMR) Ynys Cyprus 2015
- Cynhadledd Ranbarthol CPA (BIMR) Jersey 2016
- CPC Llundain 2016

**Diddordebau:** Materion cyfoes, ffotograffiaeth a theithio

# Bywgraffiadau



Ms Sabina Guillem
Gibraltar

**Crynodeb o yrfa:**

Ymunodd â'r Gwasanaeth Sifil ym 1982, ac ar hyn o bryd mae'n Bennaeth yr Adran Cydraddoldeb.

**Diddordebau:**

- Darllen
- Ioga



## Deputy Rhian Tooley
Guernsey

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Is-Lywydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2016

**Crynodeb o yrfa:**

Ganed Rhian Tooley ym Manceinion ac fe'i magwyd yng Nghonwy, Gogledd Cymru. Graddiodd ym Mhrifysgol Birmingham yn 1993 cyn treulio nifer o flynyddoedd yn gweithio ym maes addysg a gwaith ieuenctid.

Ar ôl symud i Swydd Gaerloyw yn 2002 cafodd swydd fel Rheolwr Adnoddau Dynol ac arhosodd yn y swydd hon tan 2010 pan symudodd i Guernsey gyda'i gŵr a'i thri o blant.

Trodd tri o blant yn bump ac, yn 2016, pan oeddent i gyd yn yr ysgol, penderfynodd Rhian fentro i'r byd gwleidyddol a chafodd ei hethol yn Ddirprwy'r Bobl yn St Peter Port South. Hi yw Is-Lywydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae hi'n canolbwyntio'n llwyr ar hyn o bryd ar drawsnewid y gwasanaeth a gynigir i bobl Guernsey.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Ymweliad â San Steffan - Hydref 2016

**Diddordebau:**

Diddordebau: Hi yw Ysgrifennydd y Guernsey Lilies WI, mae hi'n ysgrifennu ffuglen a barddoniaeth, yn mwynhau hwylio ac yn ffotograffydd amatur brwd.





## Mrs Ann Corlett MHK
Ynys Manaw

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Aelod o Dŷ'r Keys, Ynys Manaw

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2016

**Crynodeb o yrfa:**

- Aelod o'r Adran Addysg a Phlant 2016 hyd heddiw Aelod o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2016 hyd heddiw
- Aelod o Bwyllgor Gweithredol Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Ynys Manaw 2016 hyd heddiw
- Aelod o Bwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad y CPA 2016 hyd heddiw
- Aelod o Bwyllgor Anrhydeddau Tynwald
- Aelod o Bwyllgor Rheoli Tynwald

# Bywgraffiadau



Ms Julie Edge MHK
Ynys Manaw

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Aelod o Dŷ'r Keys, Ynys Manaw

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2016

**Crynodeb o yrfa:**

- Aelod o'r Adran Seilwaith,
- Aelod o'r Pwyllgor Taliadau 2016 hyd heddiw
- Aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Deithio am Ddim ar Drên a Thram 2016 hyd heddiw
- Aelod o Bwyllgor Rheoli a Safonau Aelodau Tŷ'r Keys 2016 hyd heddiw
- Aelod o Bwyllgor Safonau a Buddiannau Aelodau Tynwald 2016 hyd heddiw

# Bywgraffiadau



Deputy Anne Pryke
Jersey

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Gweinidog dros Dai
- Gweinidog Cynorthwyol dros Addysg
- Gweinidog Cynorthwyol ar gyfer yr Adran Isadeiledd.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2005

**Crynodeb o yrfa:**

Yn gyn nyrs, cafodd Dirprwy Anne Pryke ei geni yn Jersey yn 1953. Cafodd Anne ei haddysgu yn Jersey, yng Ngholeg Jersey i Ferched cyn cymhwyso fel Nyrs Gofrestredig yn Ysbyty Coleg y Brifysgol, Llundain. Yna, ymgymerodd â hyfforddiant bydwreigiaeth yn Ysbyty Southmead, Bryste. Yn dilyn ei hyfforddiant cafodd swydd nyrsio yn Ysbyty Brook, Greenwich.

Dychwelodd Anne i fyw yn Jersey yn 1978, ac ymunodd â Jersy Hospice Care, sy'n darparu gofal lliniarol i drigolion yr ynys sy'n dioddef o ganser - yn gyntaf fel nyrs ac yna fel Prif Weinyddes Nyrsio Gofal Cartref, rôl y bu ynddi am dros 20 mlynedd.

Cafodd ei hethol yn Ddirprwy y Drindod yn 2005 a gwasanaethodd ar y Panel Craffu Iechyd, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yna fel Gweinidog Cynorthwyol dros Gynllunio a'r Amgylchedd. Cafodd ei hail-ethol yn 2008 cyn cael ei hethol yn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2009, tan 2014.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

- 2015 CWP rhanbarthol, Gibraltar
- 2014 CWP rhanbarthol, Caeredin
- 2007 Seminar (Ottawa)

**Diddordebau:**

Mae Anne wedi bod â diddordeb erioed ym mywyd y Plwyf, ac mae'n byw ym mhlwyf y Drindod yn Jersey. Cymerodd ran yn y gwaith o sefydlu Canolfan Ieuenctid y Drindod ac mae'n aelod o Bwyllgor Cartrefi Ymddeol Plwyf y Drindod. Mae Anne yn un o aelodau gwreiddiol Jersey Brook a Gwasanaeth Cynghori Ieuenctid Jersey. Mae Anne hefyd yn chwarae rhan weithgar iawn ym mywyd yr Eglwys, gan ddal amryw swyddi o gyfrifoldeb. Mae ei diddordebau yn cynnwys nofio a cherdded.



## Judith Martin - Dirprwy Jersey

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Y Pwyllgor Breintiau a Gweithdrefnau
- Awdurdod Heddlu Jersey
- Cymorth Tramor Jersey
- Dirprwy Dosbarth Trefol

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2000

**Crynodeb o yrfa:**

Wedi bod ar y rhan fwyaf o bwyllgorau yn Addysg Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus Taleithiau Jersey, hefyd wedi eistedd ar Baneli Craffu ac am 6 blynedd roedd yn Weinidog Cynorthwyol yn yr adran Iechyd â chyfrifoldeb dros Wasanaethau Cymdeithasol.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Edinburgh, Kula Lumpa, Guernsey

**Diddordebau:**

Chwaraeon, darllen, cerddoriaeth, cadw'n heini, treulio amser gyda'r teulu.



## Dirprwy Susie Pinel
Jersey

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Y Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol ers 2014

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2011

**Crynodeb o yrfa:**

Y Gweinidog Cynorthwyol ar gyfer Nawdd Cymdeithasol 2011-2014

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

– 2013 59ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad a 33ain Cynhadledd Canghennau Bach Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad De Affrica

– 2012 42ain Cynhadledd Flynyddol BIMR Caeredin

**Diddordebau:**

– Cadwraeth Peintiadau a Miniaturau

– Cadeirydd Anrhydeddus Elusen Plant Brig-y-Don





## Mrs Lisa Hart
Jersey

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Dirprwy Greffier y Taleithiau - Penodwyd 2014

**Crynodeb o yrfa:**

Ar ôl dychwelyd i Jersey yn 1991 ar ôl cwblhau gradd mewn Celf a Dylunio, gweithiodd am 9 mlynedd fel Ymgynghorydd Cyflogaeth yn yr Adran Nawdd Cymdeithasol.

Ymunodd â Greffe y Taleithiau yn 2000 fel Clerc y Pwyllgor a gwasanaethodd ar amrywiaeth o bwyllgorau gan gynnwys Tai, Addysg, Polisi ac Adnoddau a'r Cyngor y Gweinidogion cyntaf erioed yn 2005.

Penodwyd yn Greffier Cynorthwyol yn 2008 ac roedd yn gyfrifol am redeg mentrau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys dadleuon ysgol gynradd wythnosol yn Siambr y Taleithiau a'r Cynulliad Ieuenctid blynyddol a noddir gan CPA.

Daeth yn Ddirprwy Greffier ym mis Mai 2014.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

- Ynys Cyprus BIMR 2015
- Jersey BIMR 2016

**Diddordebau:**

Garddwr brwd, a hefyd yn mwynhau celf a chrefft a darllen.



## Yr Anrhydeddus Deborah Schembri AS
Malta

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Ysgrifennydd Seneddol
- Cynllunio a Symleiddio Prosesau Gweinyddol

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2013

**Crynodeb o yrfa:**

Cyfreithiwr



## Ms Maria Angela Bellizzi MLA
Malta

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Cynorthwy-ydd

# Bywgraffiadau



Mrs Nicola Crawford
Gogledd Iwerddon

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Cydlynydd Ymgysylltu Seneddol

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

- Cynhadledd Flynyddol BIMR 2014, 2015, 2016
- Cynhadledd Flynyddol Seneddwragedd y Gymanwlad, Chwefror 2016
- Cynhadledd Flynyddol y CPA, Rhagfyr 2016

**Diddordebau:**

Darllen a Ffitrwydd



# Bywgraffiadau



## Ms Gillian Martin MSP
Yr Alban

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Aelod o Bwyllgor yr Economi, Swyddi a Gwaith Teg.
- Aelod o'r Pwyllgor Addysg a Sgiliau. Cynullydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod mewn Menter.
- Cynullydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Olew a Nwy
- Is Gynullydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Drefi a Chanol Trefi Swyddog Cyswllt
- Seneddol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir (Rosanna Cunningham MSP)
- Cynullydd y Grŵp Trawsbleidiol yn Senedd yr Alban ar Fenywod mewn Menter

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** Ethol i Senedd yr Alban am y tro cyntaf ym mis Mai 2016 fel MSP ar gyfer Aberdeenshire East

**Crynodeb o yrfa:**

Cyn ddarlithydd coleg mewn cynhyrchu teledu, cyfarwyddwr cwmni cyfathrebu a goruchwyliwr ymateb y cyfryngau ar gyfer cwmnïau olew a nwy. Hefyd aelod gweithredol o Fenywod dros Annibyniaeth 2014-2016

**Diddordebau:**

Gweithio cyfeillgar i deuluoedd, cyfranogiad menywod yn y farchnad lafur, menywod mewn menter, ynni a thlodi tanwydd, addysg bellach ac addysg uwch, tlodi cyfnod, potensial o ran twf economaidd sy'n gymdeithasol gyfrifol i wledydd bychain.



## Ms Rhoda Grant MSP
Yr Alban

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Pwyllgor yr Economi Wledig a Chysylltedd (Aelod)
- Llefarydd y blaid Lafur dros yr Economi Wledig a Chysylltedd
- Aelodau o nifer o grwpiau trawsbleidiol yn cynnwys gofalwyr, masnachu mewn pobl a thrais dynion yn erbyn menywod a phlant

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 1999, 2007

**Crynodeb o yrfa:**

- MSP ar gyfer yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd 1999-2003, 2007-Presennol
- Gweinidog yr Wrthblaid dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (senedd ddiwethaf).
- Gweinidog yr Wrthblaid dros Ynni Menter a Thwristiaeth
- Gweinidog yr Wrthblaid dros Iechyd a Chwaraeon

Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:

- Ymweliad trawsbleidiol CPA Cangen yr Alban ag Awstralia a Seland Newydd
- Wythnos yr Alban 2014
- Cynhadledd BIMR CWP, Guernsey 2016
- Anerchiad Cadeirydd CPA i Aelodau Senedd yr Alban 2017

**Diddordebau:**

Cydraddoldeb Iechyd, Merched ac Anableddau



## Dr Roberta Blackman-Woods MP
## Y Deyrnas Unedig

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai yng Nghabinet yr Wrthblaid

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2005

**Crynodeb o yrfa:**

Mae Roberta Blackman-Woods yn falch o wasanaethu fel Aelod Seneddol Dinas Durham ers dros 10 mlynedd; fe'i hetholwyd gyntaf yn 2005.

Er 2011, mae Roberta yn rhan o dîm Cymunedau a Llywodraeth Leol yng Nghabinet yr Wrthblaid. Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Lywodraeth Leol a Thai gyda chyfrifoldeb am gynllunio a thai. Yn y rôl hon, mae Roberta yn rhan o dîm yr Wrthblaid sy'n cysgodi'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a thîm Tai newydd ei ffurfio'r Wrthblaid, a sefydlwyd oherwydd y pwys y mae'r Blaid Lafur yn ei roi ar fynd i'r afael â materion tai.

Cyn iddi fynd i'r Senedd roedd yn academydd a weithiai yn y gwyddorau cymdeithasol ym Mhrifysgol Newcastle, roedd yn Ddeon Astudiaethau Cymdeithasol a Llafur yng Ngholeg Ruskin, Rhydychen ac yn Ddeon ac yn Athro Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Northumbria. Mae hefyd wedi bod yn gynghorydd yn Newcastle a Rhydychen.

Mae diddordebau Roberta yn y Senedd yn adlewyrchu anghenion ei chymuned ac yn canolbwyntio ar adfywio, datblygu rhyngwladol ac addysg, gan gynnwys addysg uwch a thyfu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae Roberta hefyd yn gyd-gadeirydd i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Prifysgolion, ac mae'n aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y DU, ac yn Gadeirydd ar Grŵp y Gogledd yn y Blaid Lafur Seneddol.



## Y Farwnes Gloria Hooper CMG
## Y Deyrnas Unedig

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** Fe'i penodwyd i Dŷ'r Arglwyddi ym 1985

**Crynodeb o yrfa:**

Baroness Hooper CMG was raised to the peerage in 1985 representing the Dyrchafwyd y Farwnes Hooper CMG i'r arglwyddiaeth ym 1985, yn cynrychioli'r Blaid Geidwadol.

Yn ystod ei gyrfa yn Nhŷ'r Arglwyddi mae hi wedi bod yn Chwip i'r Llywodraeth ac yn Is-Ysgrifennydd Gwladol dros yr adrannau canlynol: Addysg a Gwyddoniaeth; Ynni; Iechyd.

Hefyd, mae'r Farwnes Hooper wedi gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgorau a Dirprwy Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi.

Ar hyn o bryd, mae'r Farwnes Hooper yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Cangen y DU, a'r Undeb Rhyngseneddol, Cangen y DU.

Mae'r Farwnes Hooper hefyd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgorau Dethol canlynol: Sefydliadau Rhynglywodraethol, Is-bwyllgor A yr UE (Materion Economaidd ac Ariannol a Masnach Ryngwladol), Aelod Cyfetholedig.

Mae wedi bod yn Llywydd Cymdeithas Geidwadol y Merched yn Llundain Fawr. Mae'r Farwnes Hooper yn gyfreithiwr hyfforddedig.



## Y Farwnes Anita Gale
## Y Deyrnas Unedig

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Chwip Plaid Lafur, Tŷ'r Arglwyddi

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** Fe'i penodwyd i Dŷ'r Arglwyddi ym 1999

**Crynodeb o yrfa:**

Mae Anita Gale yn chwip yn y Blaid Lafur sy'n siarad ar fainc flaen yr wrthblaid ar Gyfiawnder, Cydraddoldeb a materion Cymreig. Ymunodd Anita â Thŷ'r Arglwyddi fel Arglwyddes am Oes ym 1999.

Mae Anita yn dod o gefndir yn y Blaid Lafur ac ym mudiad yr undebau llafur. Am dair blynedd cyntaf ei bywyd gwaith, cafodd ei chyflogi fel gwniadwraig, gan ddechrau pan oedd yn 15 oed mewn ffatri ddillad leol a gweithio am gyfnod byr mewn siop rhwng priodi a chael dau o blant. Pan ddychwelodd i'r gwaith, fe'i hetholwyd yn stiward llawr gwaith ar gyfer yr undeb yr oedd yn perthyn iddo tan 1970, sef Undeb y Teilwriaid a'r Gweithwyr Dillad.

Rhoddodd y gorau i'r gwaith er mwyn astudio economeg a gwleidyddiaeth yn llawn amser yng Ngholeg Technegol Pontypridd a Choleg Prifysgol Caerdydd (1970-1976).

# Bywgraffiadau

Mae gan Anita ymroddiad oes i faterion cydraddoldeb. Ar ôl graddio ym 1976, cafodd swydd fel Swyddog Menywod y Blaid Lafur yng Nghymru, ac ar ôl wyth mlynedd, fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd Cyffredinol, sef ei swydd hi tan iddi gael ei hurddo yn Arglwyddes. Rhwng 2004 a 2009 hi oedd Comisiynydd Cymru ar gyfer Comisiwn Cenedlaethol y Menywod. Yn 2005, cyflwynwyd Gwobr Cymraes y Flwyddyn Val Feld i Anita - i gydnabod ei gwaith dros fenywod yng Nghymru.

Rhwng 2008 a 2010, gwasanaethodd ar Gynulliad Seneddol Cyngor Ewrop.

Mae Anita yn weithgar gyda sefydliadau elusennol, a hi yw Llywydd Cangen Treherbert a'r Cylch o'r Lleng Brydeinig Frenhinol, ac mae'n Noddwr Sefydliad Aren Cymru ac yn Llywydd Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru. Hi yw Cadeirydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Glefyd Parkinson.



## Miss Anna Burt
United Kingdom

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Cynorthwy-ydd Gweithredol i Brif Weithredwr a Phwyllgor Gweithredol CPA UK

**Crynodeb o yrfa:**

Mae Anna yn gweithio yn agos gyda'r Prif Weithredwr ac yn ei gynorthwyo yn ei rôl fel Ysgrifennydd Rhanbarthol, CPA Ynysoedd Prydain a Rhanbarth Môr y Canoldir (BIMR). Mae hyn yn cynnwys trefnu mewnbwn CPA UK a BIMR ar gyfer CPA International a chefnogi'r Dirprwy Brif Weithredwr o ran cydlynu Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad 2016



## Jenny Rathbone AC
Cymru

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
- Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2011

**Crynodeb o yrfa:**

20 mlynedd yn niwydiant teledu materion cyfoes, gan gynnwys bod yn Gyfarwyddwr ar The Money Promgramme

Wedi rheoli Rhaglen 'Sure Start' yng Ngogledd Llundain, gan ennill gwobrau yn ei gil

Cadeirydd, Pwyllgor Monitro Rhaglenni Ewropeaidd Cymru 2013-15

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Gibraltar 2014

**Diddordebau:**

Ymgyrchydd ar gyfer Bwyd Da mewn ysgolion, ffreuturiau a phob rhan o'r sector cyhoeddus.

Tai di-garbon, aer glân, a newid modd o symud i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus integredig.



## Caroline Jones AC
Cymru

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

– Comisiynydd y Cynulliad

– Iechyd

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2016

**Crynodeb o yrfa:**

Hyfforddi fel athro. Wedi gweithio mewn Llywodraeth Leol am 7 mlynedd. Hunan-gyflogedig. Ysgrifennu polisïau a rhedeg fy adran fy hun yn y Gwasanaeth Carchardai ar gyfer Gwrth-fwlio, Atal Hunanladdiad a Chysylltiadau Hiliol/ Amrywiaeth Ddiwylliannol.

**Diddordebau:**

Canu opera ysgafn, aelod o gampfa leol, cyfaill ar gyfer canser y fron, cerdded ein ci, mynd allan am brydau bwyd gyda ffrindiau, codi arian, cyfranogiad cymunedol.



## Rhianon Passmore AC
Cymru

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2016

**Crynodeb o yrfa:**

Mae Rhianon Passmore yn gyn athrawes a chafodd ei hethol yn Aelod Cynulliad Llafur a'r Blaid Gydweithredol dros Islwyn yn 2016. Mae ganddi brofiad gyda'r mudiad undebau llafur, llywodraeth leol ac mae wedi cael nifer o swyddi fel Aelod Cabinet dros Addysg y Cyngor.

Mae wedi arwain amryw o sefydliadau gwirfoddol a bu'n llwyddiannus yn ei gwaith ym maes adfywio cymunedol. Mae'n weithredwraig hirdymor ac yn fam i bedwar. Mae'n ymgyrchu yn erbyn rhethreg adain dde eithafol.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Llundain - Rhagfyr 2016

**Diddordebau:**

Mae gan Rhianon ddiddordeb mawr a gradd mewn cerddoriaeth. Mae'n fam brysur ac yn mwynhau treulio amser gyda'i theulu.



Suzy Davies AC
Cymru

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

- Ysgrifennydd Cysgodol dros Wasanaethau Cymdeithasol, Diwylliant a'r Gymraeg
- Comisiynydd y Cynulliad

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf yn:** 2011

**Crynodeb o yrfa:**

Gyrfa mewn marchnata a rheoli'r celfyddydau; cyfreithiwr

**Diddordebau:**

Cyd-gynhyrchu, economi gytbwys, diwylliant a threftadaeth, sgiliau achub bywyd mewn argyfwng



## Al Davies
## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Swydd neu bortffolio seneddol presennol:**

Ysgrifennydd Cangen Cymru o CPA

**Career Summary**

Cynulliad Cendlaethol Cymru

- 2013 – hyd heddiw: Rheolwr Cysylltiadau Rhyngwladol.
- 2008 – hyd heddiw: Ysgrifennydd Cangen Cymru o CPA.
- 2006-2008: Rheolwr y Tîm Gwasanaethau Ymwelwyr.

Llywodraeth Cymru

- 2004 - 2006: Swyddog Polisi y Gymraeg.
- 1998-2004 – Sector Preifat
- 1996-1998 - Athro TEFL

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt yn ddiweddar:**

Cynadleddau BIMR:

- Pob cynhadledd ers 2009

Cynadleddau Seneddol y Gymanwlad:

- 2013 - De Affrica; 2010 - Kenya

**Diddordebau:**

Teithio, Golff, Sgïo, Seiclo, Ffilmiau, Chwarae Gitâr a Choginio





# Siaradwyr

# Siaradwyr



## Cerys Furlong
Chwarae Teg

Ymunodd Cerys Furlong â Chwarae Teg fel Prif Weithredwr ym mis Chwefror 2017 o'r Sefydliad Dysgu a Gwaith lle roedd yn Gyfarwyddwr Cymru. Mae gan Cerys dros ddeng mlynedd o brofiad yn y sectorau addysg a sgiliau, ac mae'n un o Lywodraethwyr Hyfforddiant ACT, Ysgol Uwchradd Fitzalan a Dysgu Oedolion Cymru.

Roedd Cerys gynt yn Gynghorydd Sir yng Nghaerdydd am chwe blynedd, ac mae ganddi brofiad o weithio i nifer o Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Mae Cerys yn ymddiriedolwr ac yn Is-Gadeirydd Sefydliad Bevan, melin drafod sy'n gweithio dros gyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Mae Cerys hefyd yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Canolfan Gelfyddydau Chapter. Y tu allan i'r gwaith, gyda'i phartneriaid busnes mae Cerys wedi sefydlu nifer o fusnesau llwyddiannus ac mae'n rhedeg grŵp bach o dafarndai a bwytai yng Nghaerdydd.

# Siaradwyr



**Natasha Davies**
Chwarae Teg

Natasha Davies yw Arweinydd Polisi ac Ymchwil Chwarae Teg. Hi sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o gyflawni holl waith ymchwil a pholisi Chwarae Teg, yn cynnwys ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU, rheoli ymchwil sy'n cael ei wneud yn fewnol a chan ddarparwyr allanol, a sicrhau cyfleoedd newydd i ddylanwadu ar newid.

Mae gan Natasha ddealltwriaeth gadarn o'r tirlun polisi yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb, tlodi, addysg a sgiliau a'r economi. Mae'n paratoi ymgynghoriadau a phapurau briffio yn rheolaidd, gan drosi ymchwil yn argymhellion polisi ar gyfer llywodraethau Cymru a'r DU.



## Christine Atkinson
Prifysgol De Cymru

Mae Christine yn Gyd-Gyfarwyddwr Canolfan Rhagoriaeth mewn Entrepreneuriaeth Prifysgol De Cymru a Phennaeth Canolfan Entrepreneuriaeth Merched a sefydlwyd ganddi yn 2008. Ers hynny, mae hi wedi cyfarwyddo nifer o brosiectau arloesol gan gynnwys Entrepreneuriaeth Menywod yn yr Undeb Ewropeaidd (prosiect o €350,000 gyda phartneriaid yn Ffrainc a Lithwania), Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (Cronfa gymdeithasol Ewrop o £5 miliwn gyda phartneriaid yng Nghymru: Prifysgol Caerdydd a BAWSO), ac ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Datblygu Menywod Entrepreneuraidd - Newid Gorwelion (DEWCH) (prosiect o €200,000 gyda phartneriaid yn Ffrainc a Gwlad Groeg). Mae Christine hefyd yn darlithio ym maes Menter a Rheoli Busnesau Bach; ei diddordebau ymchwil yw rhywedd ac entrepreneuriaeth, entrepreneuriaeth menywod ac addysg entrepreneuriaeth ar gyfer menywod.

Cyn dychwelyd i'w gyrfa academaidd ym 1999, roedd Christine yn rheoli ei busnesau llwyddiannus ei hun yng ngogledd ddwyrain Lloegr ac yn ne Cymru. Mae wedi bod wrthi yn cefnogi mentergarwch menywod a rhwydweithio busnes menywod ers amser maith, mae wedi ennill Gwobr y Frenhines am Hyrwyddo Menter, ac ar hyn o bryd mae'n Addysgwr Menter y Flwyddyn ar gyfer y DU.



## Jane Hutt AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip.

Fe'i haddysgwyd ym Mhrifysgol Kent, Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Bryste ac mae hefyd yn Gymrawd Anrhydeddus yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

I gydnabod ei rôl wrth hyrwyddo arferion ym maes cafafel, dyfarnwyd i Jane Gymrodoriaeth Anrhydeddus o'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi a Chymrodoriaeth o'r Academi Arferion Gorau ym maes Caffael.

Mae Jane wedi'i gwneud hefyd yn aelod anrhydeddus o Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) am ei gwaith mewn cyllid cyhoeddus.

Cyn iddi gael ei hethol i Gynulliad Genedlaethol Cymru roedd Jane yn gyfarwyddwr Chwarae Teg a hi oedd yr aelod o Gymru ar y Gronfa Cyfleoedd Newydd (DU) a bu'n aelod etholedig o hen Gyngor Sir De Morgannwg.

Mae'n briod a chanddi ddau o blant, mae'n dysgu Cymraeg ac mae'n byw yn y Barri.

A hithau wedi gwasanaethu fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (1995-2005), y Gweinidog Busnes y Cynulliad, Plant a Chydraddoldebau (2005-2007) a'r Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2007-2009), cafodd Jane ei phenodi'n Weinidog Busnes a'r Gyllideb ym mis Rhagfyr 2009. Ar ôl cael ei hailethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2011, penodwyd Jane Hutt yn Weinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ac ym mis Mawrth 2013, fe'i penodwyd yn Weinidog Cyllid. Ym mis Medi 2014, fe'i penodwyd yn Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Ym mis Mai 2016, fe'i penodwyd yn Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip.



## Sophie and Hannah Pycroft
Spectrum Collections

**Sophie:**

Sophie: Mae Sophie wedi bod wrth ei bodd â ffasiwn a harddwch erioed. Bu'n gweithio ac yn byw yn Llundain tra'n astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Ffotograffiaeth Ffasiwn yng Ngholeg Ffasiwn Llundain, ar ôl graddio o Brifysgol Caerdydd gyda gradd mewn Newyddiaduraeth. Er bod byw yn Llundain yn cynnig rhywfaint o brofiad bywyd a gyrfa wych, ni allai hi aros i ddod adref i Gymru. Ar ôl dychwelyd i Gymru, roedd gwaith yn brin ar gyfer ffotograffydd ffasiwn llawrydd, felly o hyn ganed Spectrum Collections, cariad tuag at Gymru ac awydd i aros gartref wrth weithio yn y diwydiannau creadigol.

Mae Sophie yn arbenigo mewn ffotograffiaeth ar gyfer y busnes ac mae ganddi lawer o syniadau creadigol i wthio'r busnes yn ei flaen.

**Hannah:**

Hannah: Tra roedd Sophie yn gweithio ac yn byw i ffwrdd yn Llundain, graddiodd Hannah gydag anrhydedd dosbarth 1af mewn Cynhyrchu'r Cyfryngau o Brifysgol Atrium De Cymru, ac yn syth ar ôl hynny cafodd lawer o wahoddiadau i weithio mewn teledu a ffilm. Wedi cwpl o flynyddoedd yn y diwydiant penderfynodd Hannah fynd yn llawrydd gan ei bod yn boddi mewn cynigion o waith, tua'r un pryd a ddaeth Sophie adref o Lundain, fel bu'r ddwy yn gweithio'n llawrydd i ariannu'r costau sefydlu cychwynnol ar gyfer y busnes.

Mae Hannah yn arbenigo mewn dylunio gwe, cynnwys digidol, dylunio graffeg a chynhyrchu fideo, felly hi sy'n creu'r brandio sy'n gwneud y cynnyrch mor amlwg.



Jo Roberts
Fabulous Welshcakes

Mae Jo wedi gweithio yn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru ers dros 25 o flynyddoedd.

12 mlynedd yn ôl, sefydlodd Jo Fabulous Welshcakes gyda'r bwriad o bobi'r pice ar y maen mwyaf blasus ac ysgafn ar y farchnad!

# Siaradwyr



## Helen Walbey
CITB

Rheolwr Gyfarwyddwr Recycle Scooters yn Aberdâr yw Helen Walbey. Y llynedd, fe'i penodwyd i arwain pwyllgor y Ffederasiwn Busnesau Bach dros bolisi amrywiaeth.

Mae Helen wedi rhedeg ei busnes ei hun er 2004, pan ddechreuodd drwy werthu cydrannau beiciau ar-lein fel ffordd i gael dau ben llinyn ynghyd ar ôl i'w gŵr gael ei anafu'n ddifrifol mewn damwain yn y gwaith.

Heddiw mae ei chwmni yn gwerthu cydrannau yn rhyngwladol, ac mae ganddo nifer o gontractau mawr ar gyfer datgymalu beiciau modur.

Mae angerdd Helen dros faterion amrywiaeth yn deillio o'i phrofiadau o fod yn fenyw sy'n berchennog busnes mewn sector lle mai dynion yw'r mwyafrif llethol. Mae hi'n credu'n gryf na ddylai neb gael ei atal rhag llwyddo mewn busnes ar sail rhyw, hil, rhywioldeb nac anabledd.



## Maxine Barrett
HOS Hire

Bu Maxine Barrett yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau yn HOS Hire ers 2007. Gan weithio yn y diwydiant adeiladu, mae Maxine yn rheoli pob agwedd ar y busnes yn cynnwys rheoli tîm o weithwyr, ac yn darparu cymorth technegol i gwsmeriaid.

Mae Maxine yn arwain tîm sy'n cynnwys dynion yn bennaf mewn diwydiant wedi'i ddominyddu gan ddynion, ac mae ganddi brofiad uniongyrchol o'r anawsterau a'r cyfleoedd y mae menywod yn y diwydiant adeiladu yn dod ar eu traws.

Ar ôl derbyn Gwobr Cyflawni Cyflogwr Enghreifftiol yn ddiweddar gan Chwarae Teg fel rhan o'r rhaglen Cenedl Hyblyg 2, mae Maxine yn credu'n gryf ei bod yn bosibl i wthio ffiniau ac effeithio ar newid cadarnhaol ac mae'n awyddus i annog mwy o ferched i gymryd a datblygu rolau mewn adeiladu.

# Siaradwyr



## Laura Toscano
GE Aviation

Ymunodd Laura â GE Aviation yn 2015 fel Arweinydd Adnoddau Dynol ar safle Cymru. Mae swydd Laura yn cynnig cymorth i tua 650 o aelodau staff mewn tri lleoliad yn y DU. Mae'r timau yn cynnwys peirianneg rheng flaen, tua 40 o reolwyr pobl neu reolwyr gweithredol ynghyd â Chyfarwyddwr Gwerthu, Cyllid Masnachol a thimau cymorth Gwerthu.

Cyn ymuno â GE Aviation, cafodd Laura sawl swydd yn ystod 18 mlynedd o weithio ym maes Adnoddau Dynol, a hynny mewn ystod o sectorau gan gynnwys Cyfleustodau a Thelathrebu. Yn fwyaf diweddar, roedd yn Ymgynghorydd Rheoli gydag Eversheds yn gweithio ar gymysgedd o brosiectau Adnoddau Dynol a Strategaeth Gyfreithiol ar gyfer cleientiaid y cwmni.

Cafodd Laura ei haddysgu yng Nghaerdydd, ac astudiodd ar gyfer ei gradd mewn Adnoddau Dynol ym Mhrifysgol De Cymru.

# Siaradwyr



## Gemma Littlejohns
Chwarae Teg

Gemma yw un o Bartneriaid Cyflogwyr Chwarae Teg.

Mae Gemma wedi bod yn gweithio gyda busnesau bach a chanolig ledled Cymru dros y 5 mlynedd diwethaf, yn datblygu arferion gweithio i wella recriwtio, cadw a datblygiad menywod yn y gweithlu yng Nghymru. Fel ymgynghorydd AD a Rheoli cymwys, mae Gemma wedi cefnogi dros 50 o gyflogwyr ledled Cymru i weithredu gwelliannau sydd wedi arwain at effeithiau pendant

# Siaradwyr



## Donna Griffiths
CITB

Mae Donna yn gweithio i'r CITB, mewn swyddi amrywiol, ers pedair blynedd ar ddeg. Penodwyd Donna i'w swydd ddiweddaraf, sef Rheolwr Partneriaethau De Cymru, yn 2016.

Mae ei swyddi blaenorol gyda'r CITB yn cynnwys Rheolwr Strategaeth Sgiliau, Ymgynghorydd Cyllid Allanol a Rheolwr Cyllid Ardal.

Cyn ymuno â'r CITB, bu Donna yn gweithio ym maes cyfrifeg a daeth yn aelod o'r CIMA gan dreulio saith mlynedd mewn gwahanol swyddi cyllid mewn nifer o sefydliadau gan gynnwys y Cyfrifwyr Siartredig, Unilever a'r sector dwristiaeth.

Oherwydd y profiad a gafodd yn ei swyddi amrywiol, mae Donna yn aelod o nifer o grwpiau a phwyllgorau allanol.

Gofynnwyd Donna yn ddiweddar i fod yn gadeirydd annibynnol Grŵp Llywio Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC) ar ran y partneriaid cydweithredol.



## Sarah Jones
Salix Engineering Services Lte

Mae Sarah Jones yn beiriannydd sifil siartredig; mae ganddi 30 mlynedd o brofiad ym maes ynni a strwythurau diwydiannol sifil.

Ar hyn o bryd mae'n gweithio yn y sector niwclear ar raglen i adeiladu gorsafoedd ynni newydd yn y DU. Mae'n weithredol o ran rhaglenni addysgol ac o ran hysbysu'r cyhoedd ynghylch pa mor gyffrous a boddhaus y gall gyrfa ym maes peirianneg fod.

Hi fydd Cadeirydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Cymru yn 2018 ac mae'n awyddus i annog pob person ifanc i fynd i fyd peirianneg.





# Perfformwyr



## Alis Huws
## Royal Welsh College of Music and Drama

Originally from Mid Wales, Alis Huws is studying harp at the Royal Welsh College of Music and Drama under Caryl Thomas.

Alis started playing at age 10 with internationally renowned harpist Ieuan Jones and has been competing in various competitions and Eisteddfodau ever since, with success both locally and nationally. Prizes include the Royal Welsh Fusiliers Harp Prize 2015 and the 2015 McGrenery prize for chamber music, which she won as part of a duo with flautist Carys Gittins. Alis was awarded her Dip(ABRSM) in Harp Performance in 2012.

An experienced performer, Alis has played at many high profile corporate events and functions, including the St David's Awards, Bio Wales Conference, and Green Growth Conference. Venues include the Wales Millennium Centre and the Senedd. In spring 2016 Alis was chosen to represent RWCMD alongside the Royal Welsh String Soloists at a Royal Gala Event hosted by HRH the Prince of Wales at Buckingham Palace to an audience including Dame Shirley Bassey and Bryn Terfel.

An avid orchestral player, Alis has been a member of the National Youth Orchestra of Wales since 2013, with whom she has performed in prestigious venues across the UK and abroad. In 2015, Alis was chosen to participate in a side-by-side event with Welsh National Opera, and in Summer 2016 she will play as part of Welsh National Youth Opera Orchestra. At RWCMD, Alis has performed with the Symphony Orchestra, Opera Orchestra, Chamber Orchestra and Wind Orchestra.



## Eilan String Quartet

The Eilan Quartet formed in 2014 after meeting at the Royal Welsh College of Music& Drama. They regularly enjoy performance opportunities ranging from RWCMD Chamber Tuesdays, Cardiff National Museum, Prior Park in Bath and All Saints Church in Penarth.

Eilan have been fortunate enough to receive regular coaching from Catherine Manson, James Boyd and Jonathan Manson from the London Haydn Quartet as part of their Music Works programme.

Other coaching opportunities have included working with Alice Neary, Rachel Roberts, The Elias Quartet and the Allegri Quartet. The quartet has a wide range of repertoire from light-hearted background music to the more serious Haydn, Beethoven, Mendelsohn and Debussy ensuring they have something for every occasion.

The Eilan Quartet are Abigail Askew, Emma Curtis, Lily Rogers and India George.





# Rheoli Cynhadledd





Janette Iliffe
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Crynodeb o yrfa:**

Mae Janette wedi gweithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ers mis Ionawr, 2005.

Mae'n Gynorthwy-ydd Gweithredol i uwch reolwyr Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad. Cyn symud i'r rôl hon roedd yn gyfrifol am Gyfathrebu Mewnol â staff Comisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth.

**Diddordebau:**

Bwyta allan, coginio, garddio, golff a threulio amser gyda'i gŵr, ei theulu a'i dau o wyrion ifanc.



CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES